

Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Taflen Ffeithiau ar gyfer Partneriaid sy'n Cyd-fyw

A fydd fy mhartner yn derbyn pensiwn CPLIL os ydw i'n marw?

Yn ôl y rheoliadau, os yw aelod o'r cynllun yn marw a bod yr aelod hwnnw'n briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig, mae gan bartner yr aelod hawl awtomatig i dderbyn Pensiwn Goroeswr.

Fodd bynnag, ar yr amod eich bod wedi talu i'r CPLIL cyn neu ar ôl 1 Ebrill 2008, ac os oedd yr aelod sydd wedi marw yn cyd-fyw â phartner o'r rhyw arall neu'r un rhyw, **gall** y partner fod yn gymwys i dderbyn pensiwn goroeswr os yw'n bodloni'r meini prawf "partner cymwys".

Beth mae'n rhaid i'm mhartner ei brofi i gael ei ystyried yn "bartner cymwys"?

Mae'n rhaid i'ch partner gadarnhau bod y canlynol yn wir am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn dyddiad y farwolaeth:

- eich bod yn rhydd i briodi'ch gilydd neu ymrwymo i bartneriaeth sifil â'ch gilydd
- eich bod yn byw gyda'ch gilydd fel gŵr a gwraig neu bartneriaid sifil cofrestredig
- ni fu'r naill neu'r llall ohonoch chi'n byw gyda rhywun arall fel gŵr a gwraig neu bartneriaid sifil
- roedd eich materion ariannol yn gyd-ddibynnol (mae cyd-ddibyniaeth ariannol yn golygu eich bod yn dibynnu ar eich cyllid cyfunol i gynnal eich safon byw)

Sut all fy mhartner brofi cyd-ddibyniaeth ariannol?

Am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn dyddiad y farwolaeth, gofynnir i'ch partner ddarparu cadarnhad eich bod yn rhannu'r un aelwyd, yn rhannu gwariant yr aelwyd, a bod gennych chi gyfrifon banc, morgais ac ymrwymadau ariannol eraill yn enwau'r ddau ohonoch ar y cyd.

Dyma enghreifftiau o'r dogfennau a fydd yn cael eu derbyn:

- Cyfriflenni Cyfrif Banc ar y cyd (am y tri mis diwethaf)
- Cyfriflen Morgais neu Gytundeb Rhent ar y cyd
- Biliau Cyfleustodau
- Datganiad Treth Gyngor
- Cofrestrriad Etholiadol
- Cyfriflenni Benthyciadau/Cardiau Credyd
- Ewyllys a Thestament /Profiant Cyfredol

Ni fydd angen i'ch partner ddarparu pob un o'r dogfennau sy'n cael eu hawgrymu. Fodd bynnag, bydd darparu llawer o wybodaeth yn helpu i brofi cyd-ddibyniaeth ariannol, a bydd y cais yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus wedyn.

Ar wahân i dystiolaeth i brofi cyd-ddibyniaeth ariannol, a fydd angen i'm mhartner brofi unrhyw beth arall?

Bydd. Bydd angen i'ch partner brofi statws priodasol y ddau ohonoch chi.

Os ydych chi neu'ch partner wedi bod yn briod o'r blaen a'ch bod wedi ysgaru neu'n weddw, bydd angen i ni weld yr archddyfarniad absoliwt a/neu'r dystysgrif farwolaeth.

Beth sy'n digwydd os yw fy mhartner yn bodloni'r holl feini prawf i gael ei ystyried yn 'bartner cymwys' ar gyfer derbyn pensiwn goroeswr, ond nad yw'n gallu darparu unrhyw un o'r dogfennau enghreifftiol a restrir fel prawf o gyd-ddibyniaeth ariannol?

Bydd angen i'ch partner ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am sut y gwnaethoch chi rannu'ch aelwyd a'ch gwariant. Er enghraifft, os oes gennych chi gyfrifon banc ar wahân, a oedd trefniant ar waith i un ohonoch chi dalu biliau a'r llall i brynu bwyd ac ati? Mewn achos o'r fath, bydd angen i'ch partner ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl i gefnogi'r cais am bensiwn goroeswr.

Pwy sy'n penderfynu a yw fy mhartner yn gymwys i dderbyn Pensiwn Goroeswr?

Os ydych chi'n marw, bydd eich partner yn derbyn ffurflen gais pensiwn goroeswr. Mae 5 rhan i'r ffurflen gais. Mae'n rhaid i'ch partner fodloni pob un o'r pedwar maen prawf yn Rhan 1, Datganiad y Partner sy'n Cyd-fyw, i gael ei ystyried yn "bartner cymwys" fel y nodir uchod. Os nad yw'ch partner yn gallu gwneud hyn, ni fydd yn derbyn pensiwn goroeswr.

Os yw'ch partner yn bodloni'r meini prawf yn Rhan 1, mae'n rhaid iddo/iddi gwblhau Rhannau 2, 3, 4 a 5 sy'n cyfeirio at wybodaeth bersonol eich partner, eich cyd-ddibyniaeth ariannol a manylion eich cyfrif banc.

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r dystiolaeth ddogfennol y gofynnwyd amdani, trosglwyddir cais eich partner i'r Panel Pensiynau a fydd yn adolygu'r cais yn unol â rheoliadau'r CPLIL.

Beth allaf ei wneud nawr i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd fy mhartner yn derbyn Pensiwn Goroeswr?

1. Cwblhau ffurflen Enwebu Partner sy'n Cyd-fyw ar gyfer Pensiwn Goroeswr. Ers 1 Ebrill 2014, nid yw'n ofynnol cwblhau'r ffurflen hon, ond gallwch chi ddewis gwneud hynny er mwyn sicrhau bod Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ymwybodol o'ch amgylchiadau personol.
2. Siarad â'ch partner a'i hysbysu am yr hyn sydd ei angen i fod yn gymwys am bensiwn goroeswr.
3. Edrych ar gyllid y ddau ohonoch ar y cyd. Allech chi brofi cyd-ddibyniaeth ariannol nawr? Os na allwch chi, a oes modd gwneud unrhyw newidiadau er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth yn y dyfodol?

Os hoffech chi drafod y mater hwn ag aelod o dîm Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ffoniwch ni ar 01443 680611 neu e-bostiwch pensions@rctcbc.gov.uk